# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 22 Ionawr 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6076

# 255(v4)

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiynau 1 a 2 gan y Dirprwy Weinidog. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel Gweinidog Brexit)

Dechreuodd yr eitem am 14.27

Gofynnwyd cwestiynau 1-6, 8 a 10. Cafodd cwestiynau 1, 4 a 5 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd. Ni ofynnwyd cwestiynau 7 a 9. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol)

Dechreuodd yr eitem am 15.11

**NDM7231** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai darpariaethau yn y Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol), i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gael eu hystyried gan Senedd y DU.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Ionawr 2020 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2019-20
Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 4 Cwestiynau Amserol

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau amserol.

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.21

Gwnaeth Elin Jones ddatganiad am - Dathlu 60 mlynedd o Bapur Sain Aberystwyth - yr hynaf yng ngwledydd Prydain.

## 6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Cefnogaeth mewn Profedigaeth ar ôl Hunanladdiad

Dechreuodd yr eitem am 15.23

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7211** Lynne Neagle (Torfaen)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod colli rhywun i hunanladdiad yn golled unigryw o ddinistriol i deuluoedd, ffrindiau a chymunedau cyfan.

2. Yn nodi'r cymorth cyfyngedig sydd ar gael yng Nghymru i gefnogi'r rhai sy'n dioddef profedigaeth drwy hunanladdiad.

3. Yn nodi bod colli rhywun i hunanladdiad yn ffactor risg mawr ar gyfer marw drwy hunanladdiad a bod cymorth i'r rhai sydd wedi cael profedigaeth yn rhan hanfodol o atal hunanladdiad.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau ar frys bod cymorth ar gael i'r rhai sydd mewn galar ar ôl hunanladdiad ledled Cymru fel rhan o lwybr ôl-gyflawni cynhwysfawr i Gymru. Wrth wneud hynny, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwelliannau i wasanaethau a'r llwybr newydd yn cael eu llunio ar y cyd gan y rhai sydd wedi byw drwy brofedigaeth hunanladdiad.

**Cyd-gyflwynwyr**

Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)

David Melding (Canol De Cymru)

**Cefnogwyr**

Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)

David Rees (Aberafan)

Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 12 | 0 | 47 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Iechyd Meddwl yng nghyd-destun Plismona a dalfa'r Heddlu

Dechreuodd yr eitem am 16.11

**NDM7233** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar Iechyd meddwl yng nghyd-destun plismona a dalfa’r heddlu, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Hydref 2019.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Rhagfyr 2019.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit - goblygiadau i Gymru

Dechreuodd yr eitem am 16.40

**NDM7237** David Rees (Aberafan)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar ei ymchwiliad i Newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit - y goblygiadau i Gymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2019.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Sgiliau'r Gweithlu ar ôl Brexit

Dechreuodd yr eitem am 17.35

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM7234** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd darpariaeth addysg bellach o ran datblygu sgiliau gweithlu Cymru i fodloni gofynion economi Cymru ar ôl Brexit.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi ym mhobl Cymru drwy:

a) gynyddu'r cyllid i addysg bellach;

b) ehangu nifer y prentisiaethau gradd yng Nghymru;

c) creu lwfans dysgu oedolion i helpu pobl i wella a meithrin eu sgiliau; a

d) datblygu Sefydliad Technoleg yng ngogledd Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 34 | 47 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Sian Gwenllian (Arfon)**

Ym mhwynt 2, mewnosod fel is-bwynt newydd ar ôl is-bwynt (b) ac ail-rifo'n unol a hynny:

'cynyddu rhwydweithiau cymorth i brentisiaid drwy drefniadau partneriaeth ffurfiol gyda cholegau addysg bellach;'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 20 | 0 | 27 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Rebecca Evans (Gwyr)**

Ym mhwynt 2, dileu is-bwynt 2(d) a rhoi yn ei le:

'gweithio gyda sefydliadau addysg bellach, prifysgolion a chyflogwyr i sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion technoleg esblygol yr economi.'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 34 | 1 | 12 | 47 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 – Sian Gwenllian (Arfon)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod pwysigrwydd Erasmus+ o ran denu pobl i Gymru i ddiwallu anghenion economi Cymru drwy'r sectorau addysg bellach ac addysg uwch, ac ymrwymo i wrthwynebu unrhyw ymgais gan Lywodraeth y DU i adael y rhaglen yn 2021.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 13 | 0 | 47 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 – Sian Gwenllian (Arfon)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu gwell amodau ar gyfer datblygu sgiliau gweithlu Cymru drwy gynyddu isafswm cyflog y flwyddyn gyntaf ar gyfer prentis i'r isafswm cyflog cenedlaethol safonol, yn unol â grŵp oedran y person.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 8 | 30 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM7234 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd darpariaeth addysg bellach o ran datblygu sgiliau gweithlu Cymru i fodloni gofynion economi Cymru ar ôl Brexit.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi ym mhobl Cymru drwy:

a) gynyddu'r cyllid i addysg bellach;

b) ehangu nifer y prentisiaethau gradd yng Nghymru;

c) creu lwfans dysgu oedolion i helpu pobl i wella a meithrin eu sgiliau; a

d) gweithio gyda sefydliadau addysg bellach, prifysgolion a chyflogwyr i sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion technoleg esblygol yr economi.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod pwysigrwydd Erasmus+ o ran denu pobl i Gymru i ddiwallu anghenion economi Cymru drwy’r sectorau addysg bellach ac addysg uwch, ac ymrwymo i wrthwynebu unrhyw ymgais gan Lywodraeth y DU i adael y rhaglen yn 2021.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 9 | 0 | 47 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y’i diwygiwyd.**

## 10 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.26

## Crynodeb o Bleidleisiau

## 11 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.29

**NDM7235** Hefin David (Caerphilly)

Yr achos o blaid trefi angori: Eu rôl o ran adeiladu economi decach.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.59

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 28 Ionawr 2020**